

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, CHWEFROR 27ain, 2023

PRESENNOL

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Alun Morris, Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Dylan Jones.

ARGLAWDD TAN LAN /CYFOETH NATURIOL CYMRU

Ar gychwyn y cyfarfod croesawodd y Cadeirydd ddau gynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r cyfarfod i drafod nifer o opsiynau i reoli'r perygl llifogydd hirdymor ar gyfer Tan Lan, Llanddaged a'r cymunedau cyfagos yn fwy effeithiol. Maent yn ystyried amrywiaeth o ffactorau ar gyfer pob opsiwn fel cynaliadwyedd, hyfywedd a fforddiadwyedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu ymgysylltu a'r gymuned a rhanddeiliaid ar bob cam o'r prosiect. Yn dilyn eu cyflwyniad cafwyd cyfle i'r cynghorwyr eu holi ar beth ydi'r oblygiadau'r opsiynau hir dymor. Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru am ddod i'r cyfarfod a nododd os oes gan unrhyw un cwestiynau pellach y bydd posib cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru drwy eu gwefan.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar 30ain, Ionawr , 2023.

1.MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

1.1 LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, Ffordd TYRPEG UCHAF

Cadarnhaodd Cyng. Nia Clwyd ei bod wedi cysylltu gyda pherchennog y cerbyd sydd yn parcio ar y llinellau melyn gyferbyn ar ysgol Llanddaged a bod y person wedi cadarnhau i symud y cerbyd oddi ar y llinellau melyn.

1.2. CAIS GRANT' DATBLYGU GWLEDIG CONWY

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cael cyfarfod gyda Mr Dave Dudley a bod popeth wedi ei gwblhau gyda'r concret slab o dan y byrddau picnic yng nghae Chwarae Cae Cetyn, Llanddaged.

1.3 LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 21 NANT, PONT Y GROES Ffordd TRWYN SWCH, LLANDDOGED

Eglurodd y clerc fod Mr Emyr Jones o'r Adran Priffyrdd/Llwybrau Cyhoeddus wedi cysylltu gyda'r cyngor i agor llwybr cyhoeddus fwy diogel drwy'r coed wrth Nant Pont y Groes, Llanddaged.

Pasiwyd i adael perchennog y tir i drafod y mater yma gyda'r Adran Priffyrdd.

1.4 MATERION BAW CWN

Derbyniwyd e-bost gan Andrew Wilkinson o'r Adran Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn egluro nad oes ganddynt gyllid ar hyn o bryd ar gyfer gosod biniau ychwanegol, fodd bynnag, maent yn gweithio gyda llawer o Gynghorau Tref a Chymuned sy'n darparu cyllid ar gyfer biniau. Os bydd un bin ychwanegol yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned a bod y Cyngor Cymuned yn darparu'r arian(sydd yn costio tua £200 am fin newydd) maent yn gallu trefnu i archebu un a'i osod. Byddent wedyn yn gwagio'r bin ychwanegol fel rhan o'u gweithgareddau arferol. Awgrymwyd hefyd i'r cyngor cymuned ofyn i'r adran Gwasanaethau Rheoleiddio i adolygu arwyddion y biniau cwn yn yr ardal.

Trafodwyd y gost o brynu'r bin ychwanegol a phasiwyd i archebu un newydd ar gyfer ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddaged a'i osod wrth yr arwydd i fynedfa i'r pentref.

2. CYNLLUNIO

2.1 **Cais cyfeirnod 0/50428** - Gorphwysfa Lodge Llanddoged Road Llanddoged Llanrwst LL26 0YY
Cymeradwyo manylion sy'n ofynnol dan amodau 3 (Deunyddiau), 4 (Nodweddion gwella bioamrywiaeth) a 5 (Cyfleuster draenio dwr wyneb) yng nghaniatâd cynllunio 0/49995 (estyniad ochr unllawr) Cais: Rhif y Cais: 0/50429 Cyfeirnod Grid: 284553,379.

Penderfynwyd a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio uchod.

3. MATERION AIL WYNEBU FFYRDD YR ARDAL

3.1 Cyng. Aaron Wynne a Cyng. Nia Clwyd wedi derbyn e-bost gan yr adran priffyrdd yn gofyn am benderfyniad y Cyngor Cymuned ar flaenoriaeth i ail-wynebu ffyrdd yr ardal.

Penderfynwyd a phasiwyd drwy aelodau'r cyngor godi eu dwylo i gadarnhau mae Ffordd Ffridd Isaf i Ffridd Uchaf, Maenan sydd â blaenoriaeth ar gyfer ail wynebu yn y flwyddyn ariannol 2023/24 a bod y Cyngor angen anfon gwybodaeth i'r Sir iddynt gymryd ystyriaeth Ffordd Fron Franis fel ail ddewis.

4. CYNNAL A CHADW

4.1 Angen edrych ar y manau pasio ar ffordd yr Abbey rhwng Gwigfa a Thŷ'r Ysgol, Maenan.

4.2 Angen torri coed ar ochr chwith y ffordd lawr o Landdoged yn Gae Brychiad, Llanddoged.

4.3 Angen sweeper Allt Penrhywlfafa ac Allt Tyddyn Frencher, Maenan.

4.4 Angen cael gwared a ffens goch sydd ar ochr y ffordd yn waelod Allt Goch, Llanddoged a chlirio y coed wrth y gamfa.

4.5 Scottish Power wedi bod yn torri coed ar ochr y ffordd ar Ffordd Efail Uchaf a'i gadael ar y ffordd.

5. UNRHYW FATER ARALL

5.1 TAL AELODAETH UN LLAIS CYMRU

Pasiwyd drwy aelodau godi eu dwylo i gadarnhau talu Tal aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn ariannol 2023/24 am £103.